

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth
Questions to the Minister for Economic Development and Transport
- 4 Cwestiynau i'r Trefnydd am ei Chyfrifoldebau heblaw am Fusnes
Questions to the Business Minister on her Responsibilities other than for Business

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration

Oblygiadau Cost Pleidleisiau Trosglwyddo Stoc Cost Implications for Stock Transfer Ballots

Q9 Leanne Wood: Will the Minister make a statement on the cost implications for stock transfer ballots? OAQ0547(SJR)

C9 Leanne Wood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am oblygiadau cost pleidleisiau trosglwyddo stoc? OAQ0547(SJR)

The Minister for Social Justice and Regeneration (Edwina Hart): The Assembly Government has given a commitment to provide financial support to councils who have resolved to ballot. Subject to compliance with published criteria, a council will only have to meet the direct cost of the ballot plus up to 50 per cent of pre-ballot costs if there is a 'no' vote.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart): Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwmo i ddarparu cymorth ariannol i gynghorau sydd wedi penderfynu cynnal pleidlais. Ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â'r meini prawf a gyhoeddwyd, dim ond am gost uniongyrchol y bleidlais a hyd at 50 y cant o gostau cyn y bleidlais y bydd yn rhaid i gyngor eu talu os ceir pleidlais 'na'.

Adnewyddu Tai yn Sir Ddinbych Housing Renewal Investment in Denbighshire

Q12 Ann Jones: Will the Minister make a statement on the regeneration outcomes delivered as a result of the Welsh Assembly Government's housing renewal investment in Denbighshire? OAQ0574(OAQ)

C12 Ann Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y canlyniadau adfywio a gyflwynwyd o ganlyniad i fuddsoddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn adnewyddu tai yn sir Ddinbych? OAQ0574(OAQ)

Edwina Hart: The Assembly has allocated £3.58 million to Denbighshire County Council to support its renewal areas over the last two financial years. For 2006-07, the council will receive £1.4 million. This has helped to improve housing condition in the areas, addressed environmental concerns and tackled underlying socio-economic issues.

Edwina Hart: Mae'r Cynulliad wedi dyrannu £3.58 miliwn i Gyngor Sir Ddinbych i gefnogi ei ardaloedd adnewyddu yn ystod y ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf, a bydd y cyngor yn cael £1.4 miliwn ar gyfer 2006-07. Bu hyn o gymorth i wella cyflwr tai yn yr ardaloedd, i roi sylw i bryderon amgylcheddol ac i fynd i'r afael â materion economaidd-gymdeithasol sylfaenol.

Gwasanaethau Swyddfa'r Post Post Office Services

Q13 Helen Mary Jones: Will the Minister make a statement on post office services in Wales? OAQ0538(SJR)

C13 Helen Mary Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau swyddfa'r post yng Nghymru? OAQ0538(SJR)

Edwina Hart: Post office services are non-devolved. My post office development fund helped post offices to diversify, improve accessibility and security in the hope that they will become more commercially viable. I am currently reviewing the impact of this fund, and will report on it and the fund's future in due course.

Edwina Hart: Nid yw gwasanaethau swyddfa'r post wedi eu datganoli. Bu fy nghronfa datblygu swyddfa'r post o gymorth i swyddfeydd post arallgyfeirio ac i wella hygrychedd a diogelwch, yn y gobaith y byddant yn fwy ymarferol yn fasnachol. Yr wyf wrthi'n adolygu effaith y gronfa hon a byddaf yn cyflwyno adroddiad am hyn ac am ddyfodol y gronfa maes o law.

Gwasanaethau Cwnsela ynghylch Trais Rhywiol a Chamdriniaeth Rywiol Rape and Sex Abuse Counselling Services

Q14 Jocelyn Davies: Will the Minister make a statement on the provision of rape and sex abuse counselling services? OAQ0550(SJR)

C14 Jocelyn Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau cwnsela ynghylch trais rhywiol a chamdriniaeth rywiol? OAQ0550(SJR)

Edwina Hart: South Wales already has a sexual assault referral centre, run by New Pathways, in place, and a SARC is being developed by the police in north Wales.

Edwina Hart: Mae gan dde Cymru eisoes ganolfan atgyfeirio ymosodiadau rhywiol, a gaiff ei rhedeg gan New Pathways, ac mae'r heddlu yn datblygu canolfan yn y gogledd.

Cynlluniau Gwrthdlodi yng Nghymru Anti-poverty Initiatives in Wales

Q15 Janet Ryder: Will the Minister make a statement on anti-poverty initiatives in Wales? OAQ0543(SJR)

C15 Janet Ryder: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau gwrthdlodi yng Nghymru? OAQ0543(SJR)

Edwina Hart: Tackling poverty lies at the heart of the Assembly Government's agenda. All our policies—for the economy, health, education, regeneration, housing—are focused on building stronger and more sustainable communities.

Edwina Hart: Mae mynd i'r afael â thlodi yn ganolbwynt i agenda Llywodraeth y Cynulliad. Mae ein holl bolisiau—ar gyfer yr economi, iechyd, addysg, adfywio, tai—yn canolbwyntio ar ddatblygu cymunedau cryfach a mwy cynaliadwy.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Questions to the Minister for Economic Development and Transport

Y Bwlch Cyflog rhwng Dynion a Menywod The Pay Gap between Men and Women

Q10 Carl Sargeant: Will the Minister make a statement on what the Assembly Government is doing to close the pay gap between men and women? OAQ0659(EDT)
Transferred for written answer by the Business Minister.

The Business Minister (Jane Hutt): The Assembly is taking positive action to address the gender pay gap through the Close the Pay Gap campaign. Following last year's equal pay summit, we are now seeking commitments and drawing up plans with public sector organisations in Wales to move the equal pay agenda forwards.

C10 Carl Sargeant: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i gau'r blwch cyflog rhwng dynion a menywod? OAQ0659(EDT)
Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Trefnydd.

Y Trefnydd (Jane Hutt): Mae'r Cynulliad yn cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau drwy'r ymgyrch Cau'r Bwlch Cyflog. Yn dilyn yr uwchgynhadledd cyflog cyfartal y llynedd, yr ydym yn awr yn ceisio sicrhau ymrwymadau ac yn paratoi cynlluniau gyda sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru i ddatblygu'r agenda cyflog cyfartal.

Blaenoriaethau Trafnidiaeth (Canolbarth a Gorllewin Cymru) Transport Priorities (Mid and West Wales)

Q11 Helen Mary Jones: Will the Minister make a statement on the Assembly Government's transport priorities for Mid and West Wales? OAQ0642(EDT)

The Minister for Economic Development and Transport (Andrew Davies): I set out our transport priorities when I announced the outcome of my transport review in December 2004. The £8 billion, 15-year transport programme is designed to increase the speed of delivery on transport, to support the development of the Welsh economy and to help to spread prosperity throughout Wales.

C11 Helen Mary Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau trafndiaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ0642(EDT)

Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies): Nodais ein blaenoriaethau trafndiaeth pan gyhoeddais ganlyniad fy adolygiad trafndiaeth ym mis Rhagfyr 2004. Mae'n rhaglen £8 biliwn, 15 mlynedd a gynlluniwyd i gyflymu'r broses o wneud gwahaniaeth i drafndiaeth, i gefnogi datblygiad ein heconomi ac i helpu i ledaenu ffyniant ar draws Cymru gyfan.

General Electric

Q12 Jeff Cuthbert: What recent discussions has the Minister had regarding General Electric in the Caerphilly constituency? OAQ0697(EDT)

Andrew Davies: I and my officials visited the GE facility at Nantgarw last year to discuss its on-going retooling project to enable the plant to maintain the next

C12 Jeff Cuthbert: Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi eu cael am General Electric yn etholaeth Caerffili? OAQ0697(EDT)

Andrew Davies: Ymwelais i a fy swyddogion â'r ganolfan GE yn Nantgarw y llynedd i drafod y prosiect ailgyfarparu cyfredol er mwyn sicrhau y gall y ffatri

generation of aircraft engines. The investment, supported by regional selective assistance, has helped to secure major maintenance contracts with several large operators, including a £1.5 billion contract with British Airways.

gynnal y genhedlaeth nesaf o beiriannau awyrennau. Bu'r buddsoddiad, a gefnogir gan gymorth rhanbarthol dewisol, o gymorth i sicrhau contractau cynnal allweddol gyda nifer o gwmnïau mawr, gan gynnwys contract gwerth £1.5 biliwn gyda British Airways.

Partneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol Regional Tourism Partnerships

Q13 Lisa Francis: Will the Minister make a statement on the roles and responsibilities of the regional tourism partnerships? OAQ0662(EDT)

C13 Lisa Francis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am swyddogaethau a chyfrifoldebau'r partneriaethau twristiaeth rhanbarthol? OAQ0662(EDT)

Andrew Davies: The role of the regional tourism partnerships is to lead the implementation of regional strategies that aim to improve the competitive performance of tourism in their areas. Regional tourism partnerships undertake a range of marketing, product development and business support activities on behalf of the tourism industry.

Andrew Davies: Rôl y partneriaethau twristiaeth rhanbarthol yw arwain y broses o weithredu'r strategaethau rhanbarthol sy'n anelu at wella perfformiad cystadleuol twristiaeth yn eu hardaloedd. Mae'r partneriaethau yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau marchnata, datblygu cynnyrch a chynorthwyo busnesau ar ran y diwydiant twristiaeth.

Cludiant Cyhoeddus Public Transport

Q14 Gwenda Thomas: What action is the Minister taking to promote and increase the use of public transport in Wales? OAQ0677(EDT)

C14 Gwenda Thomas: Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o gludiant cyhoeddus yng Nghymru? OAQ0677(EDT)

Andrew Davies: In December 2004, I announced my transport review, including a range of measures to boost public transport. Our fantastically successful scheme for free bus travel by elderly and disabled people has helped to reverse the long-term decline in bus journeys. We are working to develop a half-fares scheme for 16 to 18-year-olds.

Andrew Davies: Ym mis Rhagfyr 2004, cyhoeddais fy adolygiad trafndiaeth, gan gynnwys amrywiaeth o fesurau i hybu'r defnydd o gludiant cyhoeddus. Mae ein cynllun hynod lwyddiannus, sy'n golygu y gall yr henoed a phobl anabl deithio am ddim ar fsys, wedi helpu i wrthdroi'r gostyngiad hirdymor yn nifer y bobl sy'n teithio ar fsys. Yr ydym wrthi'n datblygu cynllun teithiau hanner pris ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed.

Contractau Cynnal Ffyrdd Road Maintenance Contracts

Q15 Mark Isherwood: Will the Minister make a statement on the procurement of road maintenance contracts? OAQ0681(EDT)

C15 Mark Isherwood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gaffael contractau cynnal ffyrdd? OAQ0681(EDT)

Andrew Davies: Transport Wales procures the majority of its road maintenance contracts through its trunk road agents, using their

Andrew Davies: Mae Trafnidiaeth Cymru yn caffael y rhan fwyaf o'i gontractau cynnal ffyrdd drwy ei asiantaethau cefnffyrdd, gan

local authority procurement procedures. Road maintenance contracts let directly by Transport Wales generally exceed the EU procurement thresholds and therefore follow the requirements of the EU procurement directives.

dddefnyddio eu gweithdrefnau caffael awdurdodau lleol. Mae'r contractau a osodir yn uniongyrchol gan Drafnidiaeth Cymru yn gyffredinol yn mynd y tu hwnt i drothwy caffael yr UE ac felly yn cydymffurfio â gofynion canllawiau caffael yr UE.

Cwestiynau i'r Trefnydd am ei Chyfrifoldebau heblaw am Fusnes Questions to the Business Minister on her Responsibilities other than for Business

Y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 The Disability Discrimination Act 2005

Q12 Peter Black: Will the Minister make a statement on improvements brought about in Wales by the introduction of the Disability Discrimination Act 2005? OAQ0188(BM)
Transferred for written answer.

C12 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwelliannau a welwyd yng Nghymru yn sgîl cyflwyno Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005? OAQ0188(BM) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

The Business Minister (Jane Hutt): The Welsh Assembly Government continues to develop initiatives to improve the lives of many disabled people in Wales. For example, WAG announced last year that we would be providing £2.2 million in funding over the next three years for 10 community transport projects across Wales to provide free transport for severely disabled people.

Y Trefnydd (Jane Hutt): Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i ddatblygu mentrau i wella bywydau llawer o bobl anabl yng Nghymru. Er enghraifft, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y llynedd y byddem yn darparu £2.2 miliwn mewn nawdd yn ystod y tair blynedd nesaf ar gyfer 10 prosiect cludiant cymunedol ledled Cymru i ddarparu cludiant am ddim i bobl ag anabledd difrifol.

*Atebwyd gweddill y cwestiynau yn y Cyfarfod Llawn.
The remaining questions were answered in Plenary.*